*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 814 (Cy.99)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2003

*Wedi'i wneud - - 20 Mawrth 2003*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(1)*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 27(9) a 154(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2003 a daw i rym ar 1 Ebrill 2003 yn union ar ôl i'r prif Orchymyn ddod i rym.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y prif Orchymyn"("*the principal Order*") yw Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003(**2**).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio'r prif Orchymyn

**2.**—(1) Diwygir y prif Orchymyn yn unol â pharagraffau canlynol yr erthygl hon.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli) mewnosoder y diffiniad canlynol yn y lle priodol:

"ystyr "cyflogai sy'n trosglwyddo" ("*transferring employee*") yw person

(a) nad yw ei gontract cyflogaeth gyda chyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru neu awdurdod heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru wedi dod i ben cyn y dyddiad trosglwyddo (boed wrth i rybudd ddod i ben, treigl amser, neu fel arall);

(b) y mae ei waith o dan y contract hwnnw wedi cynnwys cyflawni swyddogaethau awdurdod iechyd Cymreig cyn y dyddiad trosglwyddo; ac

(**1**) 1998 p.38.
(**2**) O.S. 2003/813 (Cy.98).

(c) a gafodd gynnig cyflogaeth ac a'i derbyniodd cyn y dyddiad trosglwyddo gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru.".

(3) Ar ôl erthygl 4 (trosglwyddo cyflogeion perthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru), ychwaneger yr erthygl ganlynol —

"**Parhad cyflogaeth cyflogeion sy'n trosglwyddo**

**4A.** Pan fydd cyflogai sy'n trosglwyddo yn dechrau cyflogaeth gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar y dyddiad trosglwyddo bydd y cyfnod cyflogaeth gyda'i gyflogwr yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn —

(a) cyfrif fel cyfnod cyflogaeth gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a

(b) yn cael ei drin fel cyflogaeth barhaus gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion adran 218(3) Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*John Marek*

20 Mawrth 2003 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003 ac yn darparu ar gyfer parhad cyflogaeth rhai cyflogeion mewn awdurdodau lleol ac awdurdodau heddlu yng Nghymru a oedd yn cyflawni swyddogaethau awdurdod iechyd cyn 1 Ebrill 2003 ac sydd wedi derbyn cyflogaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth i'r awdurdod iechyd gael ei ddiddymu.